PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 399 | Mai 2017



Seren ar y cae pêl-droed

t.12-13



Y pêl-droediwr Alwyn Evans

t.14



Beti Wyn yn arddangos

t.11

# Twrnament Eric ac Arthur Thomas, Penrhyn-coch





Dan 9 - Tlws Tony a Mel Holmes, Penrhyn-coch
Enillwyr - Penrhyn A (uchod)
Yn 2il - Ystwyth Rhinos A (isod)

O dan 11 - Tlws Graham's Vehicle Repairs, Clarach
Enillwyr - Waun Wanderers (uchod)
Yn 2il - Ystwyth Sharks A (isod)





**Lluniau:** Lewis Drakeley, Clarach (Tudalen Facebook LJDrakeley Photography) a Beverley Hemmings.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mehefin**
**Deunydd i law: Mehefin 9 Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 21**

**MAI 19** Nos Wener Sesiwn nos Wener Tal-y-bont Noson yng nghwmni beirdd Tîm Talwrn y Beirdd Tal-y-bont yn y Llew Gwyn am 8.00

**MAI 19** Nos Wener Rasus moch yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor o 7-10.00 dan ofal Emlyn Jones

**MAI 20** Dydd Sadwrn Bedwen Lyfrau yng Nghanolfan y Celfyddydau

**MAI 23** Nos Fawrth Music Theatre Wales a Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Y Tŵr (Guto Puw; libretto Gwyneth Glyn; yn seiliedig ar ddrama Gwenlyn Parry) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**MAI 26** Nos Wener Noson goffi Pwyllgor Henoed Llandre a Bow Street yn Neuadd Rhydypennau o 7.00 ymlaen

**MEHEFIN 10** Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion ar Gaeau Gelli Angharad Dyddiad cau i gystadlu yn yr Adran Da byw 13 Mai

**MEHEFIN 21** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb , Penrhyn-coch am 7.30

**MEHEFIN 24** Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn i Dde Ceredigion yng ngofal Jon Meirion Jones Manylion gan ac enwau i Menna Lloyd Williams 01970 820320 mennallw@gmail.com

**MEHEFIN 30** Nos Wener Caws, gwin a chân yn Eglwys St Elerch, Bont-goch yng nghwmni Côr y Gen (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) ac artistiaid eraill

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.


**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
**TEGWYN LEWIS**
**01970 880627**


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.




newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ


Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2017
**£25** (Rhif 189) Hedydd Cunningham, Tyddyn Pen-y-gaer
**£15** (Rhif 94 ) Dinah Henley, Dôl Eglur, Bow Street
**£10** (Rhif 13) Gwynant Phillips, 1 Cae'r Odyn, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ebrill 1

# Gwobr i gyn olygydd y Tincer



Mewn seremoni arbennig yn y Fedwen Lyfrau yn Aberystwyth bydd Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru yn cyflwyno Gwobr Cyfraniad Oes i Alun Jones, golygydd y *Tincer* rhwng Medi 1987 a Mehefin 1990. Mae Alun wedi gwneud cyfraniad anferth i'r byd llyfrau, yn enwedig fel golygydd creadigol. Mae croeso mawr i bawb i'r digwyddiad fydd am 1:30 yn y Stiwdio Berfformio, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar ddydd Sadwrn yr 20fed o Fai.

Bydd yna nifer o ddigwyddiadau eraill (y cyfan am ddim!) yn ystod y dydd.

## 30 MLYNEDD YN OL



A ninnau newydd gael etholiadau cynghorau lleol ar ddechrau mis Mai diddorol yw clawr rhifyn Mai 1987 o'r Tincer yn dangos diflaniad plwyf Parsel Canol. Sefydlwyd plwyf Parsel Canol yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 1894. Gorweddai rhwng Trefeurig a Melindwr a Faenor Uchaf. Tenau oedd ei boblogaeth ac nid oedd yr un pentref cyfan o'i fewn. Rhedai'r ffin drwy ardal Pen-llwyn, gyda'r Capel a'r Swyddfa Bost ym mhlwyf Melindwr.

Trosglwyddwyd y cofnodion i ofal Archifdy Ceredigion. Yn y llun gwelir aelodau olaf y Cyngor - enwau isod. Etholwyd Eilir Morris, Emlyn Griffiths a Gwynfor Jones yn ddi-wrthwynebiad ar Gyngor Melindwr, aeth Tegwyn Lewis i Gyngor Trefeurig tra penderfynodd y pedwar aelod arall ymddeol
Rhes gefn: Alwyn Hughes, Arllwyd Lewis, Berry Evans, Eilir Morris.
Rhes flaen: Emlyn Griffiths, Gwynfor Jones, Jennie Price-Jones, Tegwyn Lewis (O *Dincer* Mai 1987)

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Gerwyn ac Eurgain Ellis, Dolhaidd, ar enedigaeth Twm Hywel, brawd bach i Ifan Hywel a ŵyr bach arall i Ann Ellis, Hywelfan. Dymuniadau gorau I chi fel teulu.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â John Lewis, Dolgamlyn, ar golli ei gefnder, Hugh Griffiths, Llanfarian. Meddyliwn hefyd am Gwen ac Aneurin Morgan, Y Byngalo, sydd wedi colli perthynas, sef Ian Williamson Ystumtuen. Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Freda Rowlands , Tŷ-Cam, estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu colled.

**Urdd y Benywod**
Daeth nifer dda ynghyd i fore coffi a pwyllgor blynyddol yng Nghanolfan Groeso Statakraft bore Sadwrn 29ain o Ebrill.

Croesawodd Norma Stephens pawb yn gynnes a trosglwyddodd y Gadeiryddiaeth i Beti Daniel.

Dyma'r Swyddogion am y tymor nesaf.
Cadeirydd: Beti Daniel
Is-Gadeirydd: Carol Marshall
Trysorydd: Loraine Maloney
Aelodau y Pwyllgor Alice Briggs, Ann Ellis, Jill Fathers, a Maureen Alderhouse.

**Brysia wella!**
Derbynniodd Elen Howells, Y Gamlyn, lawdriniaeth frys yn ddiweddar ond hyfryd yw dweud ei bod tipyn yn well erbyn hyn.

**Croeso**
Erbyn hyn mae yna deuluoedd newydd yn byw yn Nolfawr ac yn Caehaidd.

# MADOG, CAPEL DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
**2.00**
*Mai*
21 Sion Meredith
28 Beti Griffiths

*Mehefin*
4 Noddfa
11 Terry Edwards
18 Ifan Mason Davies
25 Aled Lewis Evans

**Dymuniadau gorau**
Pob dymuniad da i Cledan Jones, Tŷ Mawr, Capel Madog ddathlodd ei ben blwydd yn 80 oed ar 8 Mai ac sydd ar hyn o bryd yng nghartref Hafan y Waun.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Iona Davies, Llaingwyddil, Cefn-llwyd ar golli ewythr, Mr Henry Thomas o Benrhyn-coch.

**Ennill gwobr**
Llongyfarchiadau i Huw Meredydd ar ennill y wobr gyntaf yn adran celf a chrefft yr Urdd yng Ngheredigion; bydd felly yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol – pob hwyl Huw!



# CLARACH A LLANGORWEN

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn ag Eleri, Jason, Rhian, Rhys a Sion, Angorfa, ar golli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl iawn, sef Mrs Freda Rowlands, Tŷ Cam. Cwmrheidol.

# LLANDRE

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus iawn i Dylan Huw Edwards yn 21 oed. Mae newydd orffen ei gwrs gradd yng Ngholeg King's, Llundain, ac yn edrych mlaen at haf hir o fwynhau!

**Grŵp Crefft Llandre yn arddangos**
Nos Iau Ebrill 27 cynhaliodd Treftadaeth Llandre eu Cyfarfod Blynyddol, ac yn dilyn y cyfarfod bu aelodau Grŵp Crefft Llandre yn arddangos enghreifftiau o gynnyrch yr aelodau dros y blynyddoedd diwethaf.

**Clwb 50 Banc Bro Genau'r-glyn**
Enillwyr mis Mai y Clwb yw
1. Ken a Joy Evans.
2. Harri Lloyd.
3. Gareth a Siwan Jones.




Llongyfarchiadau i ddau o drigolion Llandre fydd yn cael eu derbyn i'r Orsedd drwy anrhydedd, yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni.

Yn unol â threfniadau Urddau er Anrhydedd Gorsedd y Beirdd, mae pob aelod newydd yn dod yn aelod ar yr un gwastad, sef fel Derwydd. Mae pob person sy'n derbyn aelodaeth trwy anrhydedd Yr Orsedd yn cael eu derbyn un ai i'r Wisg Werdd, neu'r Wisg Las, yn ddibynnol ar faes eu harbenigedd.

Yn cael eu derbyn i'r **Wisg Las fydd**

**Gwynfryn Evans – sy'n arweinydd** uchel ei barch ym mhob cylch, gan fod yn hynod weithgar yn ei gymuned a'i gapel. Bu'n gweithio yn y sector llaeth drwy gydol ei yrfa, gan gychwyn yn Llangefni a Maldwyn cyn dod yn rheolwr Ffatri Laeth Felin-fach ac yna'n rheolwr De Cymru a Chanolbarth Lloegr i'r Bwrdd Marchnata Llaeth. Mae'n ymwneud yn wirfoddol gyda llu o wahanol sefydliadau lleol a chenedlaethol, ac yn Gadeirydd Bwrdd Golwg 360 ar hyn o bryd.

**Huw Ceiriog Jones – un** a roddodd oes o wasanaeth i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys yw **Huw Ceiriog Jones, Llandre**. Ar hyn o bryd, mae'n Dderwydd Gweinyddol yr Eisteddfod, ac mae hefyd wrthi'n brysur yn cofnodi hanes Eisteddfod Powys o'i dyddiau cynnar hyd heddiw. Gyda chefndir oes o weithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dyma ddyn sy'n fwy na chymwys i ymgymryd ag unrhyw brosiect ymchwil. Mae hefyd yn berchen ar wasg fach hynafol, ac argraffodd 'Y Gwir Degwch', casgliad o gywyddau serch Iolo Morganwg, cyfrol a olygwyd gan Tegwyn Jones. Mae'n Gyn-lywydd Cymdeithas Carafanwyr Cymru ac yn gyn-olygydd eu cylchgrawn, *Y Nomad*.





# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN



**Suliau Pen-llwyn**

*Mai*

21 10.00 Gwyn Davies
28 Carwyn Arthur Dyffryn – 5.00

*Mehefin*

4 2.00 Beti Griffiths
11 10.00 Elwyn Pryse (Cymun)
18
25 Gŵyl yr Ysgol Sul

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Bleddyn a Sharon Jones, Bronallt, Sharon wedi colli ei thad yn ddiweddar. Hefyd dymunwn wellhad buan i Sharon ar ôl ei llawdriniaeth meddygol, yn yr ysbyty.

Cydymdeimlwn yn ogystal â Mr. a Mrs. Hywel Jones, Coed Ladur, wrth iddynt hwythau golli brawd yng nghyfraith

**Dymuniadau da**

Anodd ydyw credu fod dros chwech gythnos ers Cyfarfod Gollwng y Parchg Wyn Morris..'Rydym ninnau, y Mhen-llwyn, yn awyddus i ddatgan ein diolchgarwch, a'n dymuniadau gorau i'r dyfodol, iddo ef a'i briod annwyl. Mawr yw ein colled, fel y dywedwyd yn y cyfarfod, ond Duw yn fodlon, llawenydd fydd ei weld eto yn y pwlpud, o dro i dro.

**Pen blwydd**

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Mrs Eirwen Sedgwick ar ei phen blwydd arbennig yn ddiweddar. Dymuniadau gorau Eirwen, a daliwch ati i gadw yr ardd hyfryd yna, tu blaen i Rheidol House, bob amser yn wledd i'r llygad.

**Ennill Cadair**

Llongyfarchiadau mawr i Gaenor Watkins, Llanymddyfri, merch Mr a Mrs Eilir Morris Glennydd, Pen-llwyn, a phriod y Tenor, Phylip Watkins. Enillodd Gaenor gadair yn Eisteddfod Llangadog, tua canol mis diwethaf, a her y gystadleuaeth oedd llunio telyneg ar y teitl "Tân". Yn rhyfedd ddigon bu y beirniad yn byw yn ardal *Y Tincer* am flynyddoedd, sef Mr Alun Jones, Bow Street, bellach o Chwilog.
Daeth naw telyneg i law, a'r ffugenw " Elen" ddaeth i'r brig. Defnyddiodd Gaenor enw ei hen hen fam-gu o Gapel Madog.

Dyma yr ail gadair iddi ei hennill yn ddiweddar. Rhaid bod ei hymddeoliad fel athrawes bro, wedi dihuno yr awen!
Rhaid cofnodi mai yn ysgol fach Pen-llwyn oedd y gadair gyntaf erioed iddi ennill yn ôl ym 1968.

Dymuniadau gorau i chi Mrs Watkins, ac edrychwn ymlaen eich gweled, rhyw ddydd yn fuan, yng nghadair yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Merched y Wawr Melindwr**

Croesawodd ein Llywydd ni i gyfarfod misol ac hefyd blynyddol y gangen ar Fai 2il. Roedd llawer o ymddiheuriadau. Cychwynwyd gyda chofnodion cyfarfodydd diweddaraf y tymor. Tynnwyd sylw at lwyddiant cyngerdd mis Ebrill a diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau a'u hamser yn paratoi noson mor llwyddiannus. Roeddym yn falch hefyd gweld aelodau o gangen Tal-y-bont. Roedd llawer o hysbysebion pwysig i'w cyhoeddi .Yn ganolog i ddathlu'r Aur mae te yn cael ei gynnal yng nghwmni Elin Jones, AC a Bois y Fro ar 3ydd Gorffennaf ym Mhrifysgol Llambed. Da oedd gweld cymaint o ddiddordeb yn y digwyddiad yma.
Cafodd pob aelod gyfle i ethol is-lywydd ac is- ysgrifennydd 2017/2018. Swyddogion 2017 -2018 felly yw:
Llywydd: Lynne Davies,
Is-Lywydd: I'w gadarnhau
Ysgrifennydd :Nia Davies, Is-ysgrifennydd: Llinos Jones, Trysorydd: Llinos Evans,Is-drysorydd: Elinor Jones,Gohebydd y Wasg: Lis Collison, Dosbarthwraig y Wawr: Anne James.

Diwedd y tymor yma bydd trip dirgel dydd Sadwrn 3ydd Mehefin yn cychwyn o'r neuadd am 9 y bore.

Yn anffodus daeth dealltwriaeth bod gŵr gwadd y noson, Mr Meirion Roberts o siop Porchell, Bow Street, wedi cael damwain ac felly ddim yn medru bod gyda ni.

Roedd pawb yn gobeithio na chafodd niwed mawr a byddwn yn edrych ymlaen i'w groesawu eto. Cymerodd pawb y cyfle i gymdeithasu dros paned wedi ei pharatoi gan Eirlys Davies ac Eirwen Sedgewick. Heulwen Lewis enillodd y raffl.



Llun: John B.R. Davies

## Dathliad 50 Ysgol Pen-Llwyn

**Nos Iau Mehefin 15 fed**

am 6.00 o'r gloch

yng Nghapel Pen-llwyn
yna yn Ysgol Pen-llwyn

Croeso i bawb a dewch yn llu!

# Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch

Ar nos Fawrth 12fed o Ebrill ein trefnwr gwadd oedd Jaqui Cooper . Mae Jaqui yn un sydd wedi dod atom o'r blaen i arddangos ac i gynnal gweithdai ac ni chafom ein siomi tro hwn eto. Ei thema oedd "Palet Cymysg" lle daeth a dau o'i hoff ddiddordebau at ei gilydd gan ddangos sut mae ei hoffder o arlunio yn cymysgu gyda threfnu blodau.


Fe wnaeth bum 5 trefniant gan fynd a ni o arlunio fel dechreuwyr at arlunio arbenigol. Rhoddodd dipiau arbennig i ni wrth fynd trwy y 5 trefniant gan fynd i fanylder am sut i ofalu am y blodau a'r deiliach. Ei threfniant cyntaf oedd "Dechrau gyda Lliw" gan gadw at drefniant syml gyda dau liw gyda deiliach gwyrdd a Gerberas coch. Daeth ag un oedd wedi ei drefnu yn barod i adlewyrchu yr un a ddangosodd. Yna "Gweithio o fewn y llinellau" gan greu trefniant modern bendigedig gyda Rhosynnau Oren, Lilis Gwyn a "Pussy Willow" . Ei thrydydd trefniant oedd " Tintiau a Thonau" gan ddilyn tonau lemwn, melyn a gwyrdd mewn Fframiau Cylch gyda Rhosynnau mawr Melyn golau, Rhosynnau bach melyn, a Lisianthus gwyn. I ddilyn fe ddaeth "Troelli a Throi" gan greu trefniant Artisitig yn dangos y gwead a'r haenau fel mewn darlun gydag Eringium glas, grawn hypericum coch , Cennin Pedr Melyn a Gwyn a Ranunculus Coch a Melyn. Ei threfniant olaf oedd trefniant 2 leoliad bendigedig gydag Anthuriums Coch, Salasse Oren, a Chrysanths mawr Gwyrdd gan ddangos eto ei hochr greadigol mewn trefniant oedd fel darlun professiynol.

Talwyd y diolchiadau gan Chris Hughes am noson wefreiddiol gydag arddangoswraig fendigedig.

Byddwn fel Cymdeithas flodau yn cynnal Sioe Fashiwn yng Nghwesty y Marine ar 12fed o Orffennaf gyda chwmni "Shop2Drop" lle fyddwch yn gallu prynu dillad o Siopau y Stryd fawr gyda gostyngiad helaeth lan i 75%. Mynediad drwy docyn yn unig, pris tocyn £10 gan gynnwys glased o win. Rhan o'r elw at Adran Cemotherapy Ysbyty Bron-glais. Os oes diddordeb gennych mewn cael tocynnau cysylltwch gydag aelodau y pwyllgor neu Donald Morgan , Blodau'r Bedol mor fuan phosib



## O'r Cynulliad Elin Jones



Rydym wedi arfer cael etholiadau'r adeg hon o'r flwyddyn, ond yn sicr doeddwn ni ddim yn disgwyl cael dau mewn un tymor. Mae Theresa May yn sicr wedi synnu rhan fwyaf o bobl gyda'i datganiad Etholiad Cyffredinol ar ôl y Pasg. Mae Cyngor Sir Ceredigion a Senedd San Steffan wedi eu taro gan etholiadau, ond mae gwaith y Cynulliad Cenedlaethol yn mynd yn ei flaen fel arfer.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymgynghori ar hyn o bryd ar sefydlu Senedd Ieuenctid yng Nghymru, i eistedd ar y cyd gyda'n Cynulliad Cenedlaethol. Fe wnes i fwynhau gwario bore yn fy hen ysgol, sef ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan yn ddiweddar, i lansio'r ymgynghoriad yma gyda'r cyngor ysgol hynod weithgar sydd yno. Rydym ni eisiau clywed barn pobl ifanc ar ba fath o Senedd Ieuenctid maent eisiau gweld yng Nghymru a'u hatebion ar faterion fel faint o aelodau ddylai'r Senedd gael a sut dylai'r etholiadau weithio.

Mae llawer o bobl yn awgrymu nad oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth, ond, rydw i'n meddwl os yw pobl ifanc yn credu bod eu lleisiau nhw yn gallu effeithio ar faterion pwysig, yna bydden nhw gyda'r un diddordeb â phawb arall mewn gwleidyddiaeth. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi derbyn pwerau gan San Steffan i newid y lleiafswm oedran pleidleisio i 16 mlwydd oed, ac mi fyddwn ni yn penderfynu os ydyn am ddeddfu i weithredu ar hyn yn y dyfodol agos. Gall pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed cael y bleidlais ar gyfer etholiad nesaf Cynulliad Cenedlaethol yn 2021.

Mae trafodaethau Brexit ar stop dros gyfnod yr etholiad cyffredinol. Mae'n sicr yn edrych fel amserlen rhyfedd ofnadwy - cychwyn trafodaethau erthygl 50 diwedd mis Mawrth, ac yna galw am etholiad o fewn rhai wythnosau, ac o ganlyniad yn dod â chyfnod o ddim trafodaethau ar Brexit. Mae'r oedi yma'n siŵr o achosi gofid mawr i'r rheini sy'n byw yng Ngheredigion, ond sydd yn ddinasyddion o wledydd eraill yn yr UE. Mi fydd rhai pobl newydd symud i Geredigion, ond mae'r rhan fwyaf wedi byw yma am flynyddoedd mawr. Mae rhai yn gweithio yma yn ein gwasanaeth iechyd, ein prifysgolion ac yn ein busnesau lleol. Mae ganddynt deuluoedd a ffrindiau. Mae eu plant yn mynychu ein hysgolion. Mae llawer yn siaradwyr Cymraeg. Maent yn aelodau integredig o gymdeithasau ar draws Ceredigion. Maent yn haeddu'r sicrwydd fod eu dyfodol nhw yma, yng Ngheredigion, a bod trafodaethau Brexit, pan maent yn ail-ddechrau, yn cadarnhau hyn yn gynnar ac yn glir.


TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar agor 6 diwrnod yr wythnos
Mawrth-Mai
(ar gau Llun ond ar agor Gwyliau Banc)
01970 820 050
Pennau

# Esboniad ar darddiad yr enw Bow Street

Syr Ifor Williams, 'rwy'n meddwl ddywedodd unwaith bod unrhyw un sy'n ceisio esbonio enw lle yn wirion – neu rhyw air tebyg! Wel, dyma'r gwirion hwn yn bwrw ati i geisio taflu rhywfaint o oleuni ar ddirgelwch nad oes neb callach wedi medru ei ddatgelu!

Mae yn fy meddiant gopi o fap c1700 o eiddo Ystâd Trawscoed sy'n dangos y caeau cyn adeiladu Penrhiw, Nantafallen a'r Lôn Groes, pan oedd "Caergowydd" ar waelod cae Maelgwyn Gaerwen ger afon Ceiro, cyn ei symud i'r safle presennol wedi dyfod y rheilffordd. Mae Brysgaga hynafol yma wrth gwrs. Court Grange Estate yw'r enw ar y tir yma – Saesneg eto nodwch – ac ym mhlwy Llanfihangel Genau'r Glyn pryd hynny. Gyda llaw, dwy filltir i'r dwyrain yr oedd gwaith mwyn Court Grange, sef Pencefn heddiw.

Yn rhyfedd iawn Ystâd Trawscoed oedd perchen y tiroedd lle saif Bow Street, a hynny o dan drwyn ystâd enfawr Gogerddan! Pam tybed? Yr unig awgrym a glywais oedd bod y ddau yswain wedi bod yn gamblo yn drwm mewn clwb yn Llundain ac i Gogerddan golli, ac yn hytrach na derbyn arian, mynnodd Trawscoed y tir hwn, gan rwbio'r halen yn y briw fel petae! Yn ddiweddarach codwyd tai Nantafallen, Penrhiw, Lôn Groes a Phenygarn ar y tir, a galwyd yr ystâd yn Caergywydd Estate. Tua 1875 gwerthwyd Caergywydd a'r ystâd i David James fy hen dadcu o Bwlch Crwys, Pontarfynach. Bellach mae'r "ystâd" wedi darfod.

Felly, adeiladwyd y gymuned a alwyd yn Nantafallen yn raddol a Phenrhiw wedyn ar y tir, y Lôn Groes (Cross Street wrth gwrs eto yn Saesneg), a rhannau o Ben y Garn yn dilyn. Hyn cyn bod unrhyw sôn am bost brenhinol.

Beth am yr enw Bow Street sydd wedi cyplysu y cymunedau hyn dros y blynyddoedd? Nodwch i ddechrau yr enwau llysoedd sydd yn Llundain sydd yma yng Ngheredigion, Bow Street, Chancery, Temple Bar, a Picadilly ym Mhenparcau! Mi roedd yna rhyw fath lys yn cael ei gynnal yn y Black Lion, ac mi roedd yr adeilad hwnnw bron gyferbyn â'r dafarn bresennol – Y Welsh Black bellach. Yn ôl traddodiad, llys-enwad y sefydliad hwn gan drigolion lleol yn "Bow Street" – a'u tafodau yn eu boch mae'n siŵr! Glynodd yr enw answyddogol yn y gymdogaeth yn union fel y gwnaeth Cock and Hen Street sy'n rhedeg gyfochrog a'r dafarn – heb sôn am Thread and Needle Street, sef y ddau dŷ oedd ar lwybr yn arwain o'r stryd!




Ond beth am y chwedl yma parthed y cwrt yn y Black Lion a enwyd yn Bow Street. Mewn cylchgrawn o'r enw *Byegones* mae'r awdur, un G.J. Williams, Pwllheli, yn dweud iddo gael sgwrs gyda mab Mr William Jones, Brysgaga, a'i dad oedd yr ynad heddwch lleol, a byddai yn cynnal ei lys yn y "the Old Black Lion". Rhaid oedd i'r Cwnstabl lleol fynd i Brysgaga i arwyddo'r gwarantau, ond penderfynodd Mr Jones agor swyddfa yn y Black Lion, a dywedodd wrth y cwnstabl am ddod a'r cyfan i'w swyddfa yn Bow Street. Ni wyddai'r cwnstabl lle roedd "Bow Street", "Wel", meddai Mr Jones, "fe wyddoch yn iawn lle mae'r Black Lion, a Bow Street fydd enw'r swyddfa yr un fath a Bow Street Llundain".

Bu farw William Jones yn 1779. Ond cyn ei farwolaeth mae cofnod yn rhestr bedyddiadau Llanbadarn fel a ganlyn: 1777 February 9; William son of Jenkin and Ann Thomas, Bow Street. A dyna, hyd y gwn yw'r cofnod cynharaf o enw Bow Street. Wedi 1750 sefydlwyd llysoedd Llundain, a Bow Street wedi hynny, gellid barnu.

Ar fap o stad Gogerddan a luniwyd yn 1787, dengys hwn fod pedwar tŷ yn y cae gyferbyn a'r Black Lion (safle heddiw). Yn ymyl y tai wedi ei brintio'n destlus mae'r enw Bow Street. Felly roedd rhyw gnewyllyn o'r pentre dan yr enw Bow Street mewn bodolaeth yn ystod saithdegau'r ddeunawfed ganrif, o leiaf. Ac eto yn un o lyfrau rhent Gogerddan am y flwyddyn 1793 mae cyfeiriad am un Erasmus David yn talu rhent am "a cottage at Bow Street built at his own expense".

Awgrymir felly mai yn ystod saithdegau'r ddeunawfed ganrif y ceir yr enw Bow Street gyntaf, ac os Ynad Heddwch o'r enw Mr Jones oedd yn gyfrifol am roi yr enw ar y pentref, ef oedd William Jones Brysgaga.

Ac yna rhwng 1860-62 bu newid mawr, daeth y rheilffordd gan adeiladu gorsaf ar waelod y pentre, a rhaid oedd cael enw – Saesneg wrth gwrs. Gallwch ddychmygu rhyw bwysigion fel David Davies, Llandinam, nad oedd yn ffrind da i'r Gymraeg, ef a'i gyd fuddsoddwyr yn gofyn beth oedd enw'r gymuned a rhywun diniwed yn dweud "We call it Bow Street". Doedd dim angen gofyn mwy. Daeth y post brenhinol i rym, a rhwydd iawn oedd gosod Bow Street SO (Sorting Office) ar y gymdogaeth i fyny at Rhydypennau.

O do, dywedwyd bod asiant unwaith yng Ngogerddan o'r enw Boughstroyd a oedd hefyd yn ynad heddwch, ac mewn parch iddo, llithrodd yr enw ar dafodau y werin i Bow Street. Stori arall yw bod y Bow Street Runners yn 'rhedeg' a llythyron i Gogerddan! Ac yn y blaen. Gyda'r blynyddoedd llygrodd yr enw i Bwstryd – bois Bwstryd oeddem ni yn chwarae pêl droed yn y pentrefi cyfagos. Erbyn heddiw Bow Street Saesnegedd sydd ar dafod pawb, am wn i. Tybed a oes yna hen gofnodion o eiddo'r cwmni rheilffordd cyntaf ar gael? Efallai bod peth goleuni yno.

Tybiwn felly mae William Jones, Brysgaga, oedd yn gyfrifol am "Bow Street", a bod y Cambrian Railways wedi rhoi sêl eu bendith arno yn ddiweddarach, a gyrru Bow Street ar y rêls ymlaen hyd ein cyfnod ni ac yn fwy na thebyg i'r dyfodol. Ond peidiwn a rhoi gormod o sylw i'r syniad i fod yr hen Top Sawyer yn y cawl o gwbl!

Wrth orffen hyn o lith, annelwig braidd, mae'n werth dyfynnu pwysigrwydd terfynau i'r tir hwn a'r cyffiniau fel y'i nodir yn Siarter 1284 Edward y Cyntaf wrth drosglwyddo'r tir i Roger Mortimer (wedi cwymp Llywelyn Ein Llyw Olaf):

*"the land of Ganerglyn, (Genau'r Glyn) lying between Redhyr (Rhydtir) and the brook called Gogerthan and from Gogerthan to Abercandoure (Camdwr) and hence to Helegenwendith (?) and hence to Thlevenant (Llyfnant) and thence to Devy (Dyfi) and so to the sea, and from the sea to Elery (Leri) and so to the old mill hence to the brook called Redepenne (Rhydypennau) and thence to Redecastell (Bryncastell heddiw) and thence along the road to Redhyr".*

**Vernon Jones**

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**

*Mai*

21 10.45 Oedfa gymun ddwyieithog yn St Ioan

28 10.30 Rhidian Griffiths

*Mehefin*

4 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun

11 10.30 Coda ni Bydd eglwysi eraill yn ymuno

18 2.30 Y Parchg Raymond Jones

25 2.30 Y Parchg Peter Thomas ym Methel

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Gwenan a Richard Wyn Davies, Ger-y-llan a'r teulu ar farwolaeth David, brawd Gwenan, ym Machynlleth.

ac â Sandra, Bethan a Philip a theulu ehangach y diweddar D Henry Thomas, Cwm Felin – fu farw ddydd Gwener 14 Ebrill yn 85 mlwydd oed. Ef oedd yr olaf o blant y Felin Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Horeb dydd Mawrth 25 Ebrill.

Cydymdeimlwn â Manon Curley a'r teulu, Dolhelyg, ar farwolaeth mam-gu Manon – Eirlys Owen, Bow Street.

**Clywed y gog**

Clywyd y gog yn galw am y tro cyntaf eleni, o goed Llwyngronw, fore Sadwrn 29 Ebrill.

**Diolch**

Dymuna Rhiannon, Cerys a Lisa, Y Gelli, ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob cerdyn, galwad ffôn, cymwynas a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt ar ôl colli Wynn. Bu hyn yn gysur mawr ar ôl amser anodd. Diolch o galon.

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mair a Ritchie Jenkins, Cwmbwa, oedd yn dathlu eu priodas aur ar y 13eg Mai.

**Merched y Wawr**

Nos Iau y 13eg o Ebrill fe groesawodd Megan Davies pawb i'r cyfarfod. Trafodwyd y busnes arferol o fynd trwy yr ohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis, ac ambell i fater oedd wedi codi gan y gangen. Diolchwyd i Glenys Morgan a Sharon Jones am eu rhan yn paratoi y panel sydd yn rhan o ddathliadau Pum Deg Mlynedd o Ferched y Wawr. Roedd y noson yng ngofal Megan Davies a Mairwen Jones. Felly fe aed ymlaen i groesawu ein gŵr gwadd am y noson sef Lyn Ebenezer, ac fel y gallwch ddyfalu cafwyd noson ddiddorol a hwylus dros ben. Yn ffordd unigryw Lyn fe roddodd i ni hanesion difyr am hen gymeriadau oedd wedi dod ar eu traws yn ystod ei fywyd yn byw yn y dref ac wrth ei gartref yn y Bont, ac hefyd ei amser ar y teledu a'r radio ac fel newyddiadurwr. Wrth iddo ddweud rhai o'r storïau hyn fe gafwyd noson o chwerthin braf. Erbyn hyn mae Lyn wedi ysgrifennu oddeutu naw deg chwech o lyfrau, ac un o'r rhain oedd *Operation Julie* a gymerodd le ddeugain mlynedd yn ôl, ac fe roddodd Lyn flas o'r hanes i ni. Hefyd fel mae pawb yn gwybod mae yn ysgrifennu erthygl yn y *Cambrian News* a'r *Cymro* yn wythnosol. Do! Cafwyd noson wych yn ei gwmni a cafwyd cwmni ei wraig Jane gyda ni hefyd. Diolchwyd i Lyn gan Mairwen yn ei dull arferol drwy benillion. Diweddwyd y noson gyda chwpanaid a sgwrs a thynnwyd y raffl misol.

**Ysbyty**

Anfonwn ein cofion at Irfon Williams, Tebeldy, Cae Mawr, sydd yn Ysbyty Bronglais fel yr â y Tincer i'r wasg – brysiwch adref Irfon!

**Sieciau er cof**

Cyflwynwyd dwy siec i'r Canon Andrew Loat gan Lynwen Jenkins ar ran teulu'r diweddar James Arwyn Richards ('Jim Ceirios') yn wythnos y Pasg. Treuliodd Jim y rhan fwyaf o'i oes ym mhentref Penrhyn-coch ac roedd y sieciau (o £5,000 yr un) er budd Eglwys Sant Ioan a Neuadd yr Eglwys. Roedd Jim





Llongyfarchiadau i Gôr Penrhyn-coch gafodd yr ail wobr yn Eisteddfod Aberystwyth

**Pêl-droed Penrhyn-coch**

**Tim 1af**

17/03/2017 – Dinbych 3 - 2 Penrhyn-coch

01/04/2017 – Hotspur Caergybi 3-1 Penrhyn-coch

08/04/2017 – Alexandra Yr Wyddgrug 0 - 1 Penrhyn-coch

15/04/2017 – Penrhyn-coch 2 - 1 Porthmadog

Enillwyr Cynghrair Huws Gray - Prestatyn

Penrhyn-coch 12fed ac yn aros yn y Gynghrair

**Eilyddion Penrhyn-coch**

11/03 Penrhyn-coch 2-2 Eilyddion Machynlleth

18/03 Penrhyn-coch 1-6 Tregaron

01/04 Penrhyn-coch 2-0 Dolgellau

12/04 Penrhyn-coch 0-8 Bow Street

15/04 Penrhyn-coch 1-1 Aberdyfi

22/04 Penrhyn-coch 1-4 Tal-y-bont

**Menywod**

06/04 Llanbedr Pont Steffan 2 -5 Penrhyn-coch

23/04 Felin-fach 3-3 Penrhyn-coch

27/04 Tregaron 1-0 Penrhyn-coch

30/04 Penrhyn-coch 1-0 Tregaron

yn hoff iawn o'r Cinio Cymunedol misol yn y Neuadd ac mae ei deulu yn gobeithio bydd y rhodd yn fendith i'r pentrefwyr wrth iddyn nhw barhau i ymgynnull i gael prydau o fwyd iachus a chymdeithasol. Diolchodd y Ficer i David, nai Jim Ceirios, sydd yn byw yng Ngwlad Thai, ac i Lynwen am ei gwaith fel cysylltwraig,





Llongyfarchiadau i Glenys Morgan gafodd ddwy wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Cwpan Radi Thomas, Merched y Wawr am gerdyn dathlu gyda bocs, a threfniant Dathlu'r aur.




Llongyfarchiadau i Sharon Jones ddaeth yn gyntaf ac ail yng nghystadleuaeth Cwpan Radi Thomas, Merched y Wawr.

# Henry Thomas – teyrnged



Ganwyd Henry Thomas ar aelwyd Dan-y-coed ar gyrion pentref Capel Dewi ar y 29ain o Hydref, 1931 yr ail o chwech o blant i Maggie a Joseph Thomas - neu "Mam a Jo," fel y byddai'r plant yn cyfeirio atynt. Ac yntau ond yn blentyn bach, symudodd y teulu i'r Felin ym Mhenrhyn-coch ac fel "Henry'r Felin" y cyfeiriwyd ato wedi hynny. Ar ol mynychu ysgol y pentref ac Ysgol Uwchradd Ardwyn. cyflawnodd ei ddyletswydd filwrol fel rhan o drefniant gorfodol y cyfnod hwnnw, ond yn ystod seibiant o'r hyfforddiant ac yntau adref yn y Penrhyn, fe gyfarfu â Glenys; syrthiodd y ddau mewn cariad ac wedi cwblhau ei dymor milwrol priodwyd y ddau yn Horeb a ganwyd iddynt dri o blant - Sandra, Bethan a Phillip i gyfoethogi eu haelwyd.

Cychwynnodd ei yrfa waith trwy fynd yn brentis i'w ewythr David James, Hafod cyn symud i weithio i gwmni adeiladwyr Cyril P.Jenkins. Ond wedi rhai blynyddoedd penderfynodd yntau ynghyd â'i frodyr Ted ag Eric sefydlu busnes adeiladu – "Thomas Brothers" ac ymunodd Phillip â'r cwmni yn ei dro. Ac yn y pentref hwn mae yna dai a stadau tai y bu ef a'i frodyr â'u llaw yn eu llunio a'u hadeiladu: Maesyfelin, Glanffrwd, Maesyrefail, Glanceulan, a Than-y-berth – yn dystiolaeth barhaol i grefft ac ymroad Henry a chwmni adeiladwyr y "Brodyr Thomas" sy'n rhychwantu cyfnod o bum mlynedd ar hugain egnîol.

Un o'i orchestion pennaf oedd adeiladu "Cwmfelin" a fu'n gartref dedwydd a diddan i Henry a Glenys yn hydref eu blynyddoedd ac yn gyrchfan i'r teulu ymgasglu ynghyd, a'i ddrws yn gyson agored o ran ei groeso.

Ond ni chyfyngwyd ei ddiddordebau i fyd adeiladwaith yn unig. Ymddiddorai Henry mewn ralïo ceir ac ar un cyfnod mi fu ef a'i frawd Eric yn cystadlu mewn gorchestion ralïo. Eric oedd y gyrrwr a Henry a'r mapiau yn ei gôl yn nafigatio ac yn gweiddi'r cyfarwyddiadau. Bu hefyd yn bridio ceffylau ym Mhenyberth, – ac adar hefyd. A mynegiant o'i greadigrwydd oedd iddo ddilyn cyfres o wersi unwaith mewn arlunio a chrochenwaith yn y coleg gydag Elsie a Sandra. Hoffai arbrofi a blasu bwydydd o wahanol wledydd a mwynhau cymdeithas o gylch y bwrdd.

Bu ef a'i deulu ar nifer o deithiau tramor hefyd gan gynnwys teithiau i Ganada i weld ei chwaer Janet a oedd wedi ymfudo yno gyda'i gŵr. Yr oedd ei deulu yn ganolog i'w feddwl - yn dad a thad-cu a hen ddat-cu hoffus a chariadus ac yntau yn meddwl y byd ohonynt i gyd.

Ymfalchïai yn fawr yn eu hymdrechion a'u llwyddiant, ac yr oedd ei gariad tuag atynt y tu hwnt i fesur a bu gofal a chariad y teulu yn eu tro amdano yntau yn destun ei werthfawrogiad cyson.

Bu'n ffyddlon gydol y blynyddoedd i achos Iesu Grist yn Horeb. Yn ei blentyndod bu'n mynychu'r Ysgol Sul a'r Band of Hope a dylanwad gweinidog ac athrawon ysgolion Sul yn fawr arno o'r cyfnod hwnnw. Bedyddiwyd ef yno a'i dderbyn yn aelod ac yn ddiweddarach ei ddyrchafu'n ddiacon. Diolchwn amdano ac am y fraint o'i adnabod a boed i Dduw gysegru'r atgofion ac estyn o'i gysur a'i ymgeledd i'w deulu yn eu hiraeth a'u colled.

**P.M.T.**

y tincer
Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# BOW STREET

**Suliau'r Garn**
**10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd www.capelygarn.org/**

*Mai*
21 John Roberts
28 Beti Griffiths

*Mehefin*
4 Noddfa
11 Terry Edwards
18 Ifan Mason Davies
25 Aled Lewis Evans

**Capel y Garn**

Ar Ebrill 1af eleni cafodd Cymdeithas Chwiorydd Capel y Garn y fraint o groesawu Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Dosbarth Gogledd Ceredigion. Agorwyd yr oedfa gan Miss Eirlys Morgan, Llywydd Chwiorydd y Dosbarth,cyn i Chwiorydd y Garn arwain y defosiwn dechreuol. Yn dilyn hynny cawsom gyflwyniad gyda sleidiau gan athrawes ifanc o Lanafan, Miss Catrin Hughes, a rannodd â ni ei hatgofion o'r cyfnod a dreuliodd yn Lesotho, dan nawdd Dolen CymruLesotho, yn dysgu plant a hyfforddi athrawon. Boed i'r profiad a gafodd Catrin wrth estyn cymorth i bobl llai eu breintiau fod yn fendith iddi gydol ei gyrfa.

Cyn i'r Llywydd ddirwyn y cyfarfod i ben gydag emyn a gweddi clywsom am wahanol brosiectau'r gymdeithas gan Mrs Ina Tudno Williams, a chael cyfle i brynu rhai o'r matiau lliwgar o'r Ffilipinas. Cawsom wybod hefyd am drefniadau Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De a gynhelir yn Eglwys Soar, Pontardawe ar ddydd Iau, Mai 18fed.

Daeth y prynhawn difyr i ben dros gwpaned o de a chyfle i gydgymdeithasu.



**Cydymdeimlad**

Trist cofnodi marwolaeth Ann Hughes, Tongwynlais, ar y 26ain o Fawrth, yn 94 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'i gŵr, Gwynfor, y plant, Rhys a Tessa, a'u teuluoedd. Cynhaliwyd yr angladd yn yr Amlosgfa yng Nghaerdydd ar Ebrill 11eg.

Mae Gwynfor yn frodor o Bow Street a bu'r ddau yn byw yn y pentref wedi priodi, ac yn ymwelwyr cyson â'r ardal tan i afiechyd Ann ei chaethiwo.

Coffa da am wraig hoffus ac annwyl. Cleddir ei llwch ym Mynwent y Garn ar y 24ain o Fehefin. Croeso i ffrindiau a chydnebydd ymuno â'r teulu yn y fynwent am 12 o'r gloch.

**Pen blwydd priodas**

Pen blwydd priodas 40 hapus i Gareth a Mair Lewis, Brynawel, ar Fai'r 21ain. Daw y neges gyda chariad oddi wrth Lowri a Rhys.

**Capel Noddfa**
**Cyfeillach Mis Ebrill**

Mair Lewis oedd yng ngofal gwasanaeth mis Ebriill ac roedd wedi gwahodd Angharad Russell Evans cyn ddisgybl o Ysgol Sul Noddfa I'n plith I sôn am ei brwydr gydag "anorexia" a salwch meddwl.

Siaradodd Angharad yn gwbl onest am ei phrofiad dirdynol o ddioddef o'r salwch ac o'r teulu yn ymladd am gymorth I gael help i'w thrin. Bu am gyfnod o 9 wythnos yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin a'I rhieni yn teithio yno bob dydd I'w gweld.

Erbyn hyn mae'n braf gweld fod Angharad yn well yn obeithiol am y dyfodol ac yn hoffi canu a pherffomio gyda Côr Sgarmes. Yn ogystal mae wedi cyfrannu at lyfr Gyrru Drwy Storom golygydd Alaw Griffiths llyfr sydd yn rhannu profiadau pobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan iechyd meddwl drwy gyfrwng llythyr, dyddiaduron, cerdd ac ysgrifau.

Mae hefyd wedi mynd ati i godi arian tuag at MIND y llynedd drwy gerdded 40 milltir o Glawdd Offa mewn 24 awr. Eleni eto bydd yn cerdded 40 milltir mewn 24 awr yn ardal y llynoedd efo ei ffrind gorau ac os hoffech gyfrannu mae croeso i chi wneud drwy fynd ar ei thudalen 'virgin just giving' sef uk.virginmoneygiving/team/AliceandAngharad





**Ennill Gwobr**

Ar ddechrau Ebrill enillodd Gareth William Jones Wobr Goffa Charles Williams am ei ddrama 'Llythyrau Caru'. Mae'r ddrama'n seiliedig ar y 500 o lythyrau yr anfonodd Yr Athro W.J. Gruffydd at Mary Davies, Harlech, yn ystod tridegau'r ganrif ddiwethaf. Beirniad y gystadleuaeth oedd y dramodydd William Lewis a pherfformiwyd y ddrama am y tro cyntaf yng Ngŵyl Goffa Charles Williams ym Modffordd, pentref genedigol yr actor poblogaidd.

**Merched y Wawr Rhydypennau**

Cyfarfu'r gangen nos Lun, 10 Ebrill, yn Neuadd Rhydypennau, a chroesawyd yr aelodau gan ein Llywydd, MrsAnn Jones, a estynnodd groeso cynnes hefyd i aelodau o gangen Genau'r-glyn, oedd wedi ymuno



Beti Wyn Davies a rhai o'r gwrthrychau ffelt a luniwyd ganddi



Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar 6 Ebrill i drafod dyfodol Neuadd Rhydypennau. Mae pwyllgor y neuadd wedi bod yn poeni ers cryn amser nad oes defnydd helaeth yn cael ei wneud ohoni ac fe gafwyd trafodaeth fywiog yn ystod y cyfarfod gyda nifer o syniadau yn cael eu cynnig. Os oes gan ddarllenwyr y Tincer unrhyw awgrym gellir cysylltu â neuaddrhydypennau@live.co.uk

â ni. Cawsom ein tywys yn ôl i fis Mehefin 1969 wrth i'r Llywydd ddarllen hanes sefydlu'r gangen a chofnodion y cyfarfod cyntaf. Mae llawer iawn o ddŵr wedi mynd dan y bont ers hynny, ond roedd yn hyfryd cael cwmni rhai o'r aelodau cyntaf hynny yn ein cyfarfod – a hwythau'n dal yn aelodau ffyddlon o'r mudiad.

Yna cyflwynwyd ein gwraig wadd, sef Mrs Beti Wyn Davies, Taliesin, gan y Llywydd, ac fe gafwyd noson eithriadol o ddiddorol yn ei chwmni. Eglurodd Beti Wyn sut y bu iddi ailgydio mewn gwaith celf ar ôl ymddeol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar waith ffeltio. Cyfeiriodd at wahanol fathau o wlân a'r ddau brif ddull o greu ffelt, sef drwy ddefnyddio dŵr poeth a symudiad, neu ddefnyddio nodwydd arbennig – gwaith yr oedd angen gofal ac amynedd i'w gwblhau. Yna dangosodd amrywiaeth helaeth o wrthrychau deniadol a wnaed ganddi – o fagiau i gadwyn o beli, potiau, teganau meddal, addurniadau a thirluniau hardd. Roedd y cyfan yn arddangos crefft a dawn artistig arbennig, a phleser oedd cael y cyfle i'w gwerthfawrogi.

Diolchwyd i Beti Wyn gan Mary Thomas, ac enillwyr y raffl oedd Gwenda James, (Llandre), Ann Williams a Joyce Bowen. Paratowyd lluniaeth ysgafn gan Beryl Hughes (Pantyperan) a Maria Owen.

Croesawyd ni yn gynnes iawn gan Ann Jones y Llywydd ar nos Lun Mai 8fed. Croeso arbennig i Jean Davies yn ôl i'r gangen ar ôl gwaeledd ei gŵr Iwan. Braf cael deud ei fod yn gwella.

Trist yw cofnodi marwolaeth Eirlys Owen a fu yn ffyddlon iawn i'r Mudiad.

Bydd yr Ŵyl Fai yn cael ei chynnal yn Felin-fach dydd Sadwrn 13eg o Fai. Dymunwn yn dda i'r aelodau fydd yn cystadlu.

Y Sadwrn canlynol bydd yr Ŵyl Haf ym Machynlleth. Y Siaradwr Gwadd fydd Alun Davies A. C. Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

Cawsom fraslun o'r gweithgareddau yn ystod y flwyddyn gan Ann a dywedodd fod popeth wedi mynd yn dda iawn heb ddim trafferthion. Diolch i'r pwyllgor am eu cefnogaeth yn arbennig i Elizabeth yr ysgrifennydd a Margaret y trysorydd. Diolch i chithau yr aelodau am eich presenoldeb.

Dyma'r swyddogion am y flwyddyn 2017-2018:
Llywydd - Lila Piette
Is-lywydd - Brenda Jones
Ysgrifennydd - Marian Beech Hughes
Is-ysgrifennydd Joyce Bowen
Trysorydd - Gweneira Williams
Is- drysorydd - Janet Roberts
Dymunwyd yn dda i Lila yn ei swydd. Diolchodd Shan i Ann am ei gwaith ar hyd y flwyddyn.

Cyn y baned cawsom syrpreis pan ddaeth Meic Stevens (ia o Solfach!!) i ganu ambell gân i ni. Ond yn wir diolch i Ken Edwards am gytuno i ddwad i'n difyrru. Cawsom ymuno mewn sawl cytgan!

Enillwyd y raffl gan Gaenor Jones. Beryl Hughes oedd yng ngofal y lluniaeth gyda Maria a Shan yn ei helpu. Diolch i Beryl am drefnu drwy'r flwyddyn

**Diolch**

Dymuna Iwan a Jean, Maes-y-garn, ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniwyd tra oedd Iwan yn derbyn triniaeth yn ysbytai Treforus a Bron-glais.

**Llongyfarchiadau**

Dymuna ffrindiau Henaduriaeth y De (gynt) longyfarch Mrs Dilys Baker-Jones, Gaerwen, ar ddathlu 50 mlynedd fel blaenores yn y Gyfundeb, a bron 40 mlynedd yn flaenores weithgar a ffyddlon yng Nghapel Penrhiw, Llanrhystud. Etholwyd Dilys yn ifanc iawn i'r swydd, yr ieuengaf yn Henaduriaeth y De. Ordeiniwyd hi yng Nghapel Clos y Graig, Llandysul. A'r un flwyddyn gwelodd golli ei mab bach, Dewi Wyn, wedi cystudd creulon, a hynny fis cyn ei deirblwydd oed. Er y profiad erchyll yma, ni chollodd ei ffydd yn ei Duw a'i cynhaliodd. A da gweld yr emyn "Ffydd" o'i heiddo yn y detholiad eleni. Emyn profiad heb os. A'r dôn gan A. Wynne Jones yn llaw-forwyn berffaith i emyn godidog.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs John Owen a'r teulu, Gerddi Gleision. Fe gollodd John ei fodryb yn ddiweddar, sef Mrs Freda Rowlands, Tŷ Cam. Cwmrheidol.

**Priodas**

Dymuniadau gorau i Dylan Hughes ac Alaw Dafydd (gynt o Bow Street) ar eu priodas yn Llanbedr Pont Steffan dydd Sadwrn 6 Mai. Pob bendith i'r dyfodol.





# Rhagor o bêl-droed

Cynhaliwyd Twrnament Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn-coch ar benwythnos yr 8fed a'r 9fed o Ebrill ar Cae Baker yn y pentref. Twrnament er cof am Eric ac Arthur Thomas, dau o'r pentref a wnaeth gymaint dros bêl-droed yma sydd erbyn nawr yn ei 4edd blwyddyn. Eto eleni fe gafwyd dau ddiwrnod llwyddiannus iawn o gystadlu gyda bron i 100 o dimoedd yn cystadlu o bob oedran - o dan 6 i dan 16. Diolchwn yn fawr iawn ar ran y pwyllgor ieuenctid i bawb a fu ynghlwm a helpu mewn unrhyw fodd, boed yn stiwardio, dyfarnu, trefnu, arlwyo, rhoi pethau i fyny, clirio ac ati. Diolch i Miss Catryn Lawrence, Pennaeth yr Ysgol Gynradd am gael defnyddio y cae ar gyfer y rhai o dan 6 a'r gegin er mwyn arlwyo i'r cyhoedd. Diolch i'r rhai a wnaeth gyfrannu at y Cwpanau a'r tlysau a diolch i'r busnesau a wnaeth gyfrannu eitemau at y gegin a'r raffl. Ein diolch mawr hefyd i Archfarchnad Tesco am roi o'i hamser i ddod allan i ddosbarthu poteli o ddŵr a ffrwythau i'r cyhoedd am ddim
Nid oedd sgôr yn cael ei cadw i'r rhain o dan 6 oed a dan 8, ond roedd pob chwaraewr yn derbyn tystysgif a medal am gymryd rhan.

Derbyniodd pob plentyn o bob tîm a ddaeth yn fuddugol neu yn ail fedal hefyd.



O dan 12 - Tlws Mick a Kathy Holmes, Aberystwyth. Enillwyr - Ystwyth. Yn 2il – Tal-y-bont (isod)





Tîm dan 8 Penrhyn-coch



O dan 14 - Tlws Chip Box 1, Penparcau. Enillwyr – Penrhyn-coch
Yn 2il - Bow Street (yn anffodus nid oes gennym lun ohonynt)



Tlws Chwaraewr gorau y Twrnament - Harri Rowe - o dîm Penrhyn-coch



O dan 16 - Tlws Knockout Furniture, Aberystwyth.
Enillwyr - Bow Street; yn ail – Penrhyn-coch (yn anffodus nid oes gennym lun ohonynt)



Staff y gegin



Merch orau y Twrnament – yn derbyn Tlws i'w gadw a Chwpan Her er cof am Gwenno Tudor – Niamh Duggan, Bow Street

**Lluniau**: Lewis Drakeley, Clarach (Tudalen Facebook LJDrakeley Photography) a Beverley Hemmings.



Tîm Tiny Tots, Penrhyn-coch

# John Alwyn Evans (1922-1956): o'r Borth i Millwall a Leyton Orient

Tybed faint o ddarllenwyr *Y Tincer* sy'n gyfarwydd â hanes John Alwyn Evans, un o bêldroedwyr mwyaf talentog Borth United? Er iddo chwarae pêl-droed ar lefel lleol i'r Borth, yn ogystal â'r YMCA a Phadarn United, aeth ymlaen i chwarae dros 200 o gêmau yn broffesiynol yng nghynghrair Lloegr, heb chwarae yr un gêm i dîm tref Aberystwyth ar wahân i un achlysur yn 1950 pan wahoddwyd ef i wrthwynebu Treharris mewn gornest gyfeillgar.

Ganwyd John Alwyn Evans ar 22 Hydref 1922 yn fab i William Ernest Evans (1888-1949) a'i briod Elizabeth (1893-1951), ac fe'i magwyd yn Ainsdale, Tan-y-cae (South Road), Aberystwyth. Roedd ei dad yn perthyn i hen deulu o Lanbadarn Fawr, ac yn bostmon am 47 mlynedd. Roedd ei fam yn ferch i deulu Hugh Jenkin Edwards, Trefechan, a bu ei ewythr Brinley Edwards, hefyd yn bêldroediwr gyda Borth ac Aberystwyth. Addysgwyd John Alwyn yn Ysgol Ramadeg Ardwyn, a bu'n aelod, fel ei rieni, o Gapel y Tabernacl, Aberystwyth. Ar ôl gadael yr ysgol gweithiodd yntau hefyd fel clerc i Swyddfa'r Post a chwaraeodd bêl-droed yn lleol cyn cael ei alw i'r fyddin yn 1939, gan wasanaethu gyda'r Royal Corps of Signals. Yng ngwersyll Knightsbridge cafodd dreialon gyda chlwb Millwall, ac ar ôl rhai gêmau i'r eilyddion arwyddodd delerau proffesiynol iddynt ym Medi 1943. Chwaraeodd gyfanswm o 96 o gemau (73 yn y gynghrair) i Millwall, gan sgorio ddwywaith. Dangosodd Alec Stock rheolwr chwedlonol Leyton Orient (a QPR ar ôl hynny) ddiddordeb ynddo, gan ei arwyddo yn Awst 1950. Daeth yn ffefryn mawr ar Brisbane Road, gan chwarae 168 o gemau (149 yn y gynghrair) fel cefnwr



Alwyn Evans

de i'r Orient. Bu'n bresennol ym mhob un o gemau cwpan Leyton Orient yn nhymor 1953-54 pan gyrhaeddodd y clwb chweched rownd y gystadleaueth cyn colli 0-1 i Port Vale. Roedd Alwyn yn gefnwr effeithiol iawn, er nad oedd yn fawr iawn o gorff. Byddai'n well ganddo chwarae peli byrion i'w hanneri yn hytrach na pheli hir i'w flaenwyr. Gwrthodai gymryd ciciau o'r smotyn gan nad oedd yn llwyddo gydant yn aml iawn! Ni chafodd gyfle i gynrychioli ei wlad – roedd Alf Sherwood a Walley Barnes yn ddewisiadau naturiol cyntaf fel cefnwyr yn ystod cyfnod ei yrfa.

Gorfodwyd i Alwyn ymddeol yn gynnar o'i yrfa ar ddiwedd tymor 1953-54 oherwydd salwch. Roedd yn uchel iawn ei barch gan y cefnogwyr a'i gyd-chwaraewyr, ac fel arwydd o hynny derbyniodd dysteb o £500 am ei wasanaeth, a chafodd fyw mewn tŷ oedd yn eiddo i'r clwb yn 41, Upper Walthamstow Road, Llundain EC17 3QS, oedd tua dwy filltir a hanner o faes Leyton Orient. Bu farw yno yn 33 oed ar 24 Chwefror 1956. Amlosgwyd ei gorff yn y City of London Cemetery and Crematorium ar 2 Mawrth 1956, a chladdwyd ei lwch ar 8 Mawrth 1956 ym mynwent Cefnllan, Llanbadarn Fawr, yn yr un bedd â'i rieni. Gadawodd weddw ifanc i alaru ar ei ôl - priododd Elizabeth Lilian Grant yn Shoreditch ym Mehefin 1952.

Bu Lilian Evans farw yn Southend-on-Sea ar 12 Ionawr 2007. Nid oedd ganddynt blant, ond mae cysylltiadau teuluol niferus yn dal yn ardal Aberystwyth a thu hwnt, ac rwy'n ddiolchgar iawn iddynt am eu cymorth i baratoi'r nodyn hwn.

Richard E. Huws

*Mae clip Pathe News o gêm gwpan Leyton Orient v. Arsenal yn pumed rownd 1952 i'w gweld ar: https://www.youtube.com/watch?v=L5nmwCZJ5ig Alwyn Evans yw rhif 2 yn y crysau tywyll.


**Diolch i nith Alwyn, Mrs Helen Herbert, Abertawe am gael cyhoeddi'r lluniau yma**



Alwyn Evans (ar ochr chwith y llun) yn chwarae dros Leyton Orient mewn buddugoliaeth 2-1 yn erbyn Fulham yng Nghwpan FA Lloegr ar 30 Ionawr, 1954, ar faes Brisbane Road. Y diweddar Jimmy Hill yw ymosodwr Fulham.

# Cneifio 1969






Dyma lun a dynnwyd gan Ieuan Griffiths, Tal-y-bont -gynt o Penlan, Pen-llwyn. Debyg mai diwrnod cneifio a ddaeth a'r trigolion yma at ei gilydd ym 1969. Hoffwn ddiolch i Erwyd Howells am yr ymchwil i gael yr enwau i gyd i lun a dynnwyd bron hanner can mlynedd yn ôl.

**Vaughan Griffiths, Bow Street**

Wil Davies, Tal-y-bont 2. Emlyn Griffiths, Penlan, Pen-llwyn 3. David Griffiths, Tal-y-bont 4. Fred Williams, Cefnllidiart, Pen-llwyn 5. Glynne Thomas, Troedrhiwlwba, Capel Bangor 6. Dic James, Tynpwll, Capel Bangor 7. Tom James, Penpombren, Capel Bangor 8. Jim Jones, Alltygwreiddyn, Capel Bangor 9. Eifion Thomas, Troedrhiwlwba, Capel Bangor 10. Peter Jenkins, Capel Bangor 11. Dilwyn Jones, Pen-llwyn12. Dei Stanley Morris, Pentre Rhibyn, Capel Bangor 13. Alun Jones, Bryncarnedd, Aberystwyth 14. Trefor Thomas, Troedrhiwlwba, Capel Bangor 15. Richard Owen, Gelli-Fadog, Capel Dewi 16. Ossie Vaughan, Rhiwarthen Isaf, Pen-llwyn.

Mae Vaughan yn meddwl fod y bois yn y llun wedi teithio lan i Hendre yn Llangurig mewn ceir lle byddent yn cneifio. Jim Jones, Alltygwreiddyn, yn gyrru y tractor a treilar lan i Llangurig a dod nôl i Cyncoed gyda llwyth o wlân.




Plaid Cymru | Party of Wales

PLEIDLEISIWCH I

BEN LAKE

A PHLAID CYMRU AR 8 MEHEFIN



*"Rwy'n nabod Ben ers llawer o flynyddoedd, ac yn hynod o falch mai ef yw ymgeisydd Plaid Cymru yn yr etholiad yma. Mae e'n ddyn ifanc, galluog, serchog ac mae e'n Gardi i'r carn."* **- Elin Jones AC**

- Dim ond Aelodau Seneddol Plaid Cymru all amddiffyn Cymru yn sgil Brexit.

- Dim ond Ben Lake fydd yn blaenoriaethu Ceredigion a Chymru yn San Steffan.

***Llais cryfach mewn cyfnod heriol.***


# Clwb Bowlio Morfa Mawr

## Bowlio Llain Wastad

Beth am roi cynnig arni? Da iawn. Mae'n gêm dda, ac rydych mewn ardal ddelfrydol i fentro arni am y tro cyntaf. Mae'n gamp sy'n addas i unrhyw un beth bynnag eich oed - o blant saith oed i oedolion saith deg oed, yn abl neu'n anabl. Gall oedolion, bechgyn a merched gymryd rhan am ychydig o hwyl ac ymarfer corff ysgafn, neu os ydych yn fwy cystadleuol mae pob cyfle i gymryd y gamp yn fwy difrifol. Mae'n medru bod yr un mor gystadleuol â phêl-droed, criced, rygbi neu unrhyw gamp arall.

Mae Clwb Bowlio'r Morfa Mawr yn chwarae ar lain allanol; rydym yn glwb cyfeillgar gydag aelodaeth gymysg o ddynion a menywod. Mae'r tymor chwarae yn ymestyn o fis Ebrill hyd at fis Medi, ac mae'r Clwb yn chwarae gemau yn erbyn clybiau eraill – gall rhain fod yn gemau cyfeillgar, yn gemau cynghrair, neu'n gemau cwpan i ddynion, merched neu dimau cymysg. Rydym hefyd yn cynnal cynghrair fewnol a chystadlaethau Clwb yn ystod y tymor.

Rydym yn croesawu aelodau newydd o bob oed, yn ddechreuwyr neu'n fowlwyr profiadol sy'n chwilio am glwb newydd.

Am fanylion pellach cysylltwch gyda Richard Huws ar 01970-832566 / e-bost rehuws@aol.com neu Brian Davies ar 01970 611121

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

owain bebb a'i gwmni
CYFRIFWYR SIARTREDIG
*CHARTERED ACCOUNTANTS*
Aberystwyth 01970 607920
3 Tŷ Harbwr, Y Lanfa, Aberystwyth SY23 1AS
Caernarfon 01286 677 624
Pwllheli 01758 612646
post@owainbebb.cymru
owainbebb.cymru

*Trefnwyr Angladdau*
*C T Evans*
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
*gwyn@ct-evans.co.uk*
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

# Etholiadau y Cyngor Sir

**Dyma ganlyniadau etholiadau y Cyngor Sir yn nalgylch y Tincer a gynhaliwyd ar Fai 4.**

Y BORTH
Hugh Richard Michael Hughes (Annibynnol) 285
Kevin Roy Price (Plaid Cymru) 158
**Ray Quant (Annibynnol) 326 ETHOLWYD**
Phil Turner-Wright (Annibynnol) 65

MELINDWR
**Daniel Rhodri Davies (Plaid Cymru) 627 ETHOLWYD**
Gordon Patrick Walker (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) 165

TIRYMYNACH
**Paul Hinge (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) 468 ETHOLWYD**
Richard Michael Lucas (Plaid Cymru) 365

TREFEURIG
**Dai Mason (Annibynnol) ETHOLWYD YN DDIWRTHWYNEBIAD**

Dyma oedd y canlyniadau yn 2012

Y BORTH
Shaun Bailey (Plaid Geidwadol Cymru) 72
James Whitlock Davies (Annibynnol) 292
**Ray Quant (Annibynnol) 358 ETHOLWYD**

MELINDWR
**Rhodri Davies (Plaid Cymru) 601 ETHOLWYD**
Fred Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) 255

TIRYMYNACH
**Paul Hinge (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) 601 ETHOLWYD**
Jaci Taylor (Plaid Cymru) 255

TREFEURIG
**Dai Mason (Annibynnol) 422 ETHOLWYD**
Dai Suter (Plaid Cymru) 300

## Gweinyddiaeth newydd wedi ei ffurfio trwy glymblaid dair-ochrog

Ar 12 Mai, yn y cyfarfod Cyngor cyntaf ers yr etholiad, sefydlwyd gweinyddiaeth newydd drwy glymblaid dair-ochrog ac ail-etholwyd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fel Arweinydd. Mae'r glymblaid yn cynnwys grŵp Plaid Cymru, y grŵp mwyaf ag 20 o gynghorwyr, y grŵp Annibynnol (11) a'r grŵp Llais Annibynnol (3). Y Democratiaid Rhyddfrydol fydd yr wrthblaid, gydag wyth o gynghorwyr. Cyhoeddodd yr Arweinydd mai'r Cynghorydd Ray Quant MBE yw'r Dirprwy Arweinydd.

Etholwyd y Cynghorydd Lynford Thomas yn ddarpar Gadeirydd y Cyngor, a'r Cynghorydd Hag Harris yn ddarpar Is-gadeirydd.

Does dim cyhoeddiad wedi ei wneud eto ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am bortffolios unigol y Cabinet.



Ray Quant MBE

# Colofn Enwau Lleoedd

Ar fin y ffordd fach sy'n arwain o bentref Tal-y-bont tuag at Fedd Taliesin, saif tyddyn a adnabyddir heddiw fel *Cwm-slaid*. Dengys map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans (1906) bod dwy annedd yn wreiddiol, sef *Cwm-slaid* a *Chwm-slaid Fach*. Ond beth, feddyliech chi, yw'r ail elfen?




**Map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans, 1906. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban**

Cyfeiria Archif Enwau Lleoedd Melville Richards (http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/) at enghraifft gynnar o'r enw sy'n digwydd yn 1588/9 yn llawysgrifau Harold Hughes, sef *Tythyn cwm ysgolhaig*. Mae'n amlwg o'r ffurf honno mai *ysgolhaig* yw'r elfen olaf, yn golygu 'person dysgedig neu wybodus; myfyriwr neu ddisgybl; clerigwr; neu glerc'.

Cywasgwyd yr elfen *ysgolhaig* i roi *sglaig*, ffurf a nodir fel amrywiad cydnabyddedig yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru*. Dyma a welir yn y ffurfiau *Cwm sclaig* a *Chwm sclaig bach* ar Frasluniau'r Arolwg Ordnans yn 1833. (Mae'n bosibl mai'r un amrywiad a geir yn yr enw *Porth Sglaig* ger Tudweiliog ar arfordir gogleddol Llŷn.)




**Brasluniau'r Arolwg Ordnans (1833) OSD 336 yn y Llyfrgell Brydeinig http://www.bl.uk/onlinegallery/onlineex/ordsurvdraw/p/002osd000000014u00304000.html**

Gan fod yr elfen *sglaig* o bosibl yn ddieithr i drigolion gogledd Ceredigion, fe'i hystumiwyd i *slaid* (amrywiad ar *sleid* a benthyciad o'r Saesneg *slide*) am fod y gair hwnnw'n fwy cyfarwydd efallai.

Mae'r enw *Tythin Gwar-y-Cwm-yr-Hysgolhaig* a gofnodir yn 1654 yn Hen Siediwl Gogerddan (Iwan Wmffre: *The Place-names of Cardiganshire*, t. 1138) yn tystio mai'r un *cwm* sydd dan sylw hefyd yn yr enw *Gwar-cwm* gerllaw.

Ni wyddom i sicrwydd pwy oedd yr *ysgolhaig* arbennig hwn, er bod Iwan Wmffre yn *The Place-names of Cardiganshire* (t. 1159) yn cyfeirio at fodolaeth gŵr o'r enw *Madoc Scoleyg* yng Ngenau'r Glyn ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Gellir cymharu'r enw â *Chae ysgolhaig* ar fferm Pen-y-bryn, Caergybi, Môn (Rhestr Map Degwm), ac *Afon Ysgolheigion*, plwyf Trefdraeth, sir Benfro (B. G. Charles: *The Place-Names of Pembrokeshire*, t. 167).

Ar y llaw arall, gwyddon pwy fu'n sail dros enw *Ffynnon Ysgolheigion*, plwyf Llanafan Fawr, Brycheiniog, oherwydd esboniad Evan Jones, yr hynafiaethydd o Dy'n-pant, Llanwrtyd, yn ei lawysgrifau:

> 'Cyn codi Ysgoldy yn Llanafan Fawr, byddai ysgol ddyddiol yn cael ei chadw am ychydig fisoedd yn nhymor gauaf, a hyny'n flynyddol, yn nghapel Troedrhiwdalar. Gan nad oedd lle cyfleus yn ymyl y Capel i'r bechgyn i fyned iddo i gicio y bel droed, yr oedd yn arferiad ganddynt fyned i lecyn bychan gwastad ar ben uchaf cyttir a elwir y Comyn Coch. Wedi cwblhau y chwarae yn y fan hono, àu llawer ohonynt at ffynon fechan ar y llethr islaw i yfed o'i dyfroedd; ac yn ymyl y ffynon yma y bwytâau rhai eu cinioio [*sic.*] canol dyddiau. Felly y rhoddwyd iddi'r enw "*Ffynon Ysgolheigion*"'.

Llawysgrif Amgueddfa Werin Cymru 1793/218.

Angharad Fychan

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

# GOGINAN

**Codi Pres**
Llongyfarchiadau i George Pitcher a'i dad Mike, Cerrig Llwyd ar eu taith feicio yn ddiweddar. Fe wnaeth y ddau feicio 300 milltir o Aberystwyth i Southwold, Suffolk. Codwyd dros £5000 at ddwy elusen cancr mewn ieuenctid.

**I'r Coleg**
Da clywed Mabli Tudur, Caerdydd, yn dweud ar Heno iddi gael ei derbyn i Mountview Academy, Llundain. Dymuniadsu gorau iddi.

# DOLAU

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Sandra a Dan a'r teulu, Awel y Coed ar farwolaeth mam Sandra – Eirlys Owen.

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau I Eirwen Jones, Cwm Cae, ddathlodd ei phen blwydd yn 80 yn ddiweddar.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Gwobrwyo adeiladwyr Ceredigion am ansawdd eu hadeiladu

Cafodd adeiladwyr a datblygwyr yng Ngheredigion eu cydnabod yn ddiweddar am eu hymrwymiad i waith adeiladu o ansawdd o fewn y sir. Er mwyn derbyn cydnabyddiaeth roedd yn rhaid i bob prosiect ddangos crefftwaith o ansawdd uchel iawn, cysylltiad agos â'r datblygwyr a'r syrfëwr rheoli adeiladu o ran y broses archwilio'r safle a chydymffurfio â rheoliadau adeiladu yn ogystal â boddhad cwsmer. Cafodd enwebiadau a gasglwyd ar hyd y flwyddyn eu cyflwyno i'r broses beirniadu a chytunwyd ar enillwyr amrywiaeth o brosiectau. Roedd dau o enillwyr Ceredigion o ddalgylch y Tincer - llongyfarchiadau i Luke Worgan, Y Borth, am yr Estyniad neu Waith Addasu Gorau i Eiddo Cyfredol ym Mhantglas, Cwmsymlog; ac Owen Egan, Capel Dewi, am y Datblygiad Bach (Tai) Gorau, ym Mhengeulan, Capel Bangor.



**Luke Worgan a Gwawr Edwards**



**Owen ac Elaine Egan**


James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111


## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 27 Ebrill o dan lywyddiaeth y Cyng Sian Jones. Adroddwyd bod bachgen ysgol o'r pentref wedi achosi difrod i'r matiau sydd o dan y cyfarpar adloniant yng nghae chwarae Tregerddan trwy losgi y rhan helaeth ohonynt. Penderfynwyd fod hyn yn fater difrifol, ac i ofyn i'r heddlu drin y mater gyda rhieni y bachgen rhag ofn iddo wneud gwaeth difrod yn rhywle arall.

Yn dilyn cyfarfod llwyddiannus i drafod dyfodol Neuadd Rhydypennau, deallir fod pedwar wyneb newydd wedi ymuno â'r pwyllgor, a byddant yn symud ymlaen i ystyried y sylwadau a'r argymhellion a wnaed y noson honno megis tacluso cyffredinol yn cynnwys ardal y toiledau.

Mae trigolion y Dole yn cwyno bod y blwch llythyron wedi diflannu o ben y lôn heb unrhyw ymgynghoriad â'r cyhoedd. Cysylltir â'r Swyddfa Bost am eglurhad. Adroddwyd fod gwefan y Cyngor wedi ei diweddaru.

Mae'r llwybr o ddeutu pont y rheilffordd ar ffordd Clarach wedi gorffen ac i bob golwg yn llwyddiannus. Ond nid yw'r cynllun blaenoriaethu traffig ar ochor Clarach i'r bont yn foddhaol, gan na ellir gweld y cerbyd sy'n dod o gyfeiriad y pentref oherwydd y crwb sydd ar ganol y bont. Bydd rhaid i'r awdurdod priodol edrych eto ar y sefyllfa.

Ar fater cynllunio, nid oedd gan y Cyngor unrhyw sylw i wneud ar estyniad a newidiadau yn 20 Bryncastell. Mater ariannol – telir £632 yswiriant am 2017-18.


Bydd y cyfarfod nesaf yn Gyfarfod Blynyddol a gwahoddir trethdalwyr Tirymynach a Llangorwen i fod yn bresennol. Hynny am 7 o'r gloch ar nos Iau 25 Mai. Dilynir gan y cyfarfod arferol.

Derbyniwyd enwebiad y 12 trethdalwr/wraig a roes eu henwau ymlaen i fod yn gynghorwyr am y tymor nesaf. Ni bu angen etholiad. Dyma'r enwau: Richard Iestyn Hughes, Tom Hughes, Edward Vernon Jones, Meinir Owen Jones, Sian Thomas Jones, Siaron Ann King, Meinir Ann Lowry, Robert Alan Pugh, Dewi Evans, Dewi James, Owain Elystan Morgan a Rowland Alwyn Rees.


GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Adolygiad

Daniel Davies
*Yr Eumenides*
Gwasg Carreg Gwalch 244t.
£8.50




Llongyfarchiadau i Daniel Davies ar ei nofel ddiweddaraf, *yr Eumenides.* Mae'n haeddu gwobr dim ond am ddewis y teitl, ond fe fyddai wedi bod o help i bobl anwybodus fel fi petai esboniad arno yn rhywle. Yn ôl fy ngliniadur gair Groeg yw Eumenides y mae'n bosib mynegi ei ystyr orau yn Gymraeg gydag ymadroddion tebyg i "y rhai da eu bwriad," "y rhai graslon", "carwyr tegwch." Dyma'r enw gafodd ei roi i'r Ellyllesau yn chwedloniaeth Gwlad Groeg, sef y tair ysbryd benywaidd oedd yn poenydio'r euog.

Romp yw'r gair mae Fflur Dafydd yn ei ddefnyddio yn ei geirda ar glawr y llyfr ac mae hi yn llygad ei lle. Bydd darllenwyr Daniel yn gyfarwydd â'i ddawn i greu plot sydd â'i blethiadau'n ymglymu fwy a mwy drwy gyfres o droeon trwstan, cyd-ddigwyddiadau bownd-o-ddigwydd-er-mor-anhebygol, a chymeriadau difreintiedig sydd, er hynny i gyd, yn bobl real, os dienaid ar adegau.

Yn y Cei Newydd mae'r stori wedi ei gosod. Mae a wnelo hi â thai haf gweigion, dillad drudfawr, cyn-garcharor oedd wedi ei garcharu ar gam, plismones ifanc, gweinidog daionus ond braidd yn ddi-glem (trueni am yr ystrydeb honno), tair hen wraig gynllwyngar (yr Eumenides), miliwnydd o berchennog ffatri bysgod a'i fab, a lot o DNA, ymhlith pethau eraill. Does dim gofyn i'r darllenydd ddatrys unrhyw ddirgelwch - mae'r cyfan yn glir fel dydd i bawb ar wahân i'r plismon ymhongar! Mae hi'n stori gyfoes, dda am un frwydr arall yn y rhyfel barhaus rhwng y di-arian a'r cefnog, yr esmwyth eu byd a'r anghennus.

Roedd yr hen ddihareb amheus ei moesoldeb 'Nid twyll yw twyllo twyllwr' yn mynnu atsain yn fy mhen erbyn y diwedd, ac mae'r cwestiwn tragwyddol ynghylch y gwahaniaeth rhwng tegwch a chyfiawnder yn dal i hofran rywle yn fy ymwybod i.

**Llinos Dafis**

# Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



**Twrbeini**

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r cyngor nos Iau Ebrill 20fed yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. Roedd Jean Watson yn y gadair.

Mae naw cynghorydd cymuned wedi eu hethol yn briodol heb wrthwynebiad. Mae yna un sedd wag.

Mae'r Cyngor Sir yn cynnal archwiliadau rheolaidd o Afon Melindwr a glannau'r afon ger Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor. Pryder i'r cynghorwyr oedd clywed bod toriadau o'r cloddiau a gwastraff gardd eraill wedi eu gwaredu yn yr afon unwaith eto. Roedd y toriadau yma wedi casglu y tu blaen i'r bont. Bu yn rhaid i'r tîm gweithredu symud y toriadau o'r clawdd er mwyn i'r dŵr yn afon Melindwr fedru llifo heb rwystr. Nid yw'n briodol i arian ac adnoddau cyhoeddus gael eu defnyddio ar faterion y gellid yn ei hanfod ei osgoi.

Bydd Clwb Beicio Ystwyth yn cynnal treialon ar ffordd Nant yr Arian a ffordd Cwmrheidol rhwng Ebrill 5ed a Awst 23ain eleni.

Estynnwn groeso i'r Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ar nos Iau Mai 18ed am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL MORLAN**
**6.00, nos Fawrth, 9 Mai**
Croeso cynnes i bawb.

**BRECWAST MAWR**
**8.00-10.00, bore Mawrth, 16 Mai**
Rhan o weithgareddau Wythnos Cymorth Cristnogol. Croeso i bawb.

**DEWCH AT EICH GILYDD**
**Dydd Sadwrn, 17 Mehefin**
Digwyddiad cymunedol i nodi blwyddyn ers marwolaeth Jo Cox, AS. Cyfle i ddangos a dathlu bod mwy yn ein huno nag sydd yn ein rhannu. Manylion pellach i ddilyn.

***Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH***
***01970-617996; morlan.aber@gmail.com***

# Ysgol Pen-llwyn

**Twrnament Pêl droed**

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm 7 bob ochr ar ennill pob gêm yn y grwpiau bore ar gaeau Blaendolau.

Mae'r cit newydd (noddedig gan Exchange Stores ) yn amlwg yn hwb iddynt ! Da iawn fechgyn !

**Ymweliad yr R.N.L.I.**

Braf oedd cael croesawu dau o dîm yr R.N.L.I. i sôn am eu gwaith anhepgor ar ein traethau lleol.Roedd diddordeb mawr gan y plant a chawsant weld pob math o offer pwrpasol ddefnyddir i achub y sawl sydd mewn trafferthion. .Cafodd Deian a Deri hwyl yn gwisgo rhai o'r dillad achub a bu sawl un yn helpu i ddangos yr offer. Wedi cyflwyniad bywiog cafodd y plant gyfle i holi cwestiynau am y gwaith.

**Gwobrau i ddathlu llwyddiannau**

Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran mewn gweithgareddau amrywiol yn ddiweddar gan gynnwys beicio, pêl-droed, rygbi, dawnsio a gweithgareddau gwyddonol. Daeth llu o fedalau, cwpanau a gwobrau i'r ysgol i'w dangos. Braf yw gweld y plant yn defnyddio eu hamser hamdden yn gynhyrchiol. Da iawn chi !

**Trawsgwlad**

Llongyfarchiadau i Deri ac Ana ar gystadlu yn nhrawsgwlad Ceredigion yn Aberaeron a phob lwc i Ana wrth fynd yn ei blaen i gystadlu yn genedlaethol.

**Syniadau creadigol**

Bu Caryl Lewis atom i arwain sesiynau sgrifennu pan fu'r plantyn trafod sut hoffent weld yr ysgol ymhen hanner can mlynedd eto.Cafwyd llwyth o syniadau hyfryd am gadeiriau marshmallows,dod i'r ysgol ar fysus banana neu gymylau a llond y lle o losin a chandi fflos! Y bwriad yw darlunio 'r
syniadau a'u casglu at ei gilydd i greu llyfr i ddathlu hanner canmlwyddiant yr ysgol ym mis Mehefin.

**Gwaith Celf**

Bu Jo Bonds ac Alice Briggs yn yr ysgol yn cydweithio gyda'r plant i greu teils diddorol i'w rhoi at ei gilydd, eto fel rhan o'n dathliadau 50. Caiff y gwaith ei arddangos ar ôl ei orffen.

**Pêl-rwyd**

Da iawn i'r merched fu'n cystadlu yng nghylch Aberystwyth cyn gwyliau'r Pasg ac i'r bechgyn fu'n chwarae pêl-droed.

**Mygiau dathlu 50**

Bydd mygiau hyfryd ar werth yn yr ysgol cyn hir gyda logo wedi ei gynllunio'n arbennig gan Iris Jones - blwyddyn 2. Cysylltwch â'r ysgol os am archebu rhai personol i sicrhau fod rhai ar ôl.

**Ras Foch**

Cofiwch am ein ras foch nos Wener 19eg o Fai sy'n cael ei threfnu gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn Neuadd Pen-llwyn. Dewch yn llu i gefnogi !














SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

# Ysgol Rhydypennau

**Chwaraeon**
Ar b'nawn olaf fis Mawrth, bu tîm pêl-droed bechgyn yr ysgol yn cystadlu ar gaeau Blaendolau yn erbyn ysgolion y cylch. Mewn grŵp anodd iawn chwaraeodd y bechgyn yn neilltuol o dda gan ennill y grŵp heb golli gêm. Yn anffodus collodd y bechgyn yn y rownd gyn-derfynol i'r buddugwyr, Llanfarian.

Bu'r merched wrthi yr un pryd yn y Ganolfan Hamdden yn brwydro yng nghystadleuaeth pêl-rwyd y cylch. Ar ôl cystadlu'n frwd, yn anffodus, methodd y merched ennill ddigon o bwyntiau i fynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol-Hen Dro.

Aeth aelodau o dîm rygbi'r ysgol lawr i Glwb Rygbi Aberaeron ar yr 28ain o Fawrth. Cystadleuaeth i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac felly roedd y safon yn uchel iawn. Yn ystod gêmau'r grŵp, enillodd y bechgyn dair gêm, collwyd un a chafwyd un gêm gyfartal. Galluogodd hyn i'r bechgyn fynd drwyddo i'r rownd gyn-derfynol, ond er brwydro'n galed colli fu'r hanes yn anffodus.

Llongyfarchiadau mawr i aelodau'r tri thîm am eu hymdrechion campus.

**Ymweliad Addysgol**
Ar y 14eg o Fawrth fe aeth plant blynyddoedd 3 i 6 i safle Statkraft yng Nghwmrheidol. Yn unol â gwaith thema'r tymor, pwrpas yr ymweliad oedd dysgu fwy am Drydan ac Egni Adnewyddiadwy. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant gyfle i ymweld â'r pwerdy, gwyliwyd ffilm am hanes adeiladu cronfa Nant y Moch a chafodd bawb gyfle i ddylunio poster am yr hyn roeddynt wedi ddysgu yn ystod yr ymweliad. Cafodd y plant ddiwrnod arbennig drwy gyfuno mwynhad a dysgu gwybodaeth newydd yr un pryd.

**Cystadleuaeth y Pasg.**
Diolch yn fawr i'r Parchedig Peter Jones am drefnu a beirniadu cystadleuaeth dylunio delweddau'r Pasg yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Tali Mcpherson, Cadi Bowen a Lleucu Siôn am eu dyluniadau buddugol.

**Beicio**
Yn ddiweddar ac yn unol â chynllun 'Big Pedal' y Llywodraeth, anogwyd plant yr ysgol i feicio i'r ysgol yn hytrach na dibynnu ar geir eu rhieni. Yn ystod adeg y cynllun, daeth ymwelwyr i'r ysgol er mwyn hybu beicio a diogelwch y ffordd fawr yn gyffredinol. Diolch yn fawr i Sioned Lewis (SUSTRANS), Jim Burke (Dr Beics) a Helen Jenkins am y cymorth a'r cyngor.

**Clwb Cant Ebrill**
1af-£25 Susan Herron-Bryncastell.
2il-£15 Margaret Davies - Bow Street.
3ydd-£10 Llinos Bonsall - Ysgol Rhydypennau

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*


Capteniaid Eleri- tîm buddugol yr Eisteddfod-Olivia Jones a Marc Taylor.


Trawsgwlad y Sir-o'r chwith-Ella Thomas, Lleucu Siôn, Gethin Davies, Megan Hughes, Llio Tanat, Elen Morgan.


Enillydd y Gadair-Elen Morgan, ail-Elin Morgan ac yn drydydd Iestyn Powell.


Ffarwelio â Miss Susan Rowlands.


Beicio- Plant Blwyddyn 6 a'u hyfforddwr- Mr Grahame Marsh.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Ysgol Penrhyn-coch



**Eisteddfod Penrhyn**
Cynhaliwyd Eisteddfod flynyddol y Pentref ar ddiwedd mis Ebrill. Cafwyd cystadlu brwd rhwng disgyblion yr Ysgol ar y nos Wener a hoffwn ddioch i'r rhai hynny am gystadlu ac am fod yn gystadleuwyr teg.

**Pêl droed 7 bob ochr**
Mwynheuodd y tîm pêl droed yn nhwrnament yr Urdd gan ennill a cholli ambelli gêm! Da iawn chi.

**Ymweliad i'r eglwys**
Diolchwn unwaith eto i'r Parchedig Lyn Dafis am ein tywys ar daith hanes y Pasg yn Eglwys Sant Ioan.Roedd plant y Cyfnod Sylfaen wedi wir fwynhau a dysgu llawer am negeseuon y Pasg

**CA2 Bl 3 a 4 Eglwys Llandre**
Cynhaliwyd taith stori'r Pasg i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 yn eglwys Llandre-mwynheuodd pob disgybl y profiad o weld y digwyddiadau yng nghyfnod diwedd bywyd Iesu.Diolch am y gwahoddiad a'r cyfle.

**Sesiynau 'Bible Explorers'**
Erbyn hyn mae disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn elwa o drafodaethau am yr Hen Destament ac wedi astudio creu'r byd.

**Trawsgwlad rhanbarth yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Steff Gillies ar ddod yn 2il a Tomos James yn 12fed safle - da iawn chi ! fechgyn chwim! Cafodd y ddau yma flas ar redeg wrth hefyd gymryd rhan yn Nhrawsgwlad y dair Sir yng Nghaerfyrddin.

**Ymweliad i Goedwig Gogerddan**
Thema dosbarth derbyn a Blwyddyn 1 a 2 am y tymor fydd coedwig, cuddfannau a Dant y Llew! Aethom ar daith i goedwig Gogerddan ac fe ddaeth plant bach Cylch Meithrin Trefeurig yn gwmni i ni.Cawsom sioc a syrpreis enfwr wrth i Dili y Dylwythen Deg o raglen 1,2,3, Cyw neidio allan o dan y bont bren ac ymuno yn ein hwyl!Cafwyd amser ffantastig yn creu brawddegau rhif yn defnyddio cerrig a brigau; creuwyd siapiau ar y llawr, buom yn canu gyda Dili ar hyd y llwybrau,cawsom stori Gryffalo ac fe welsom flodau di-ri! Diolch Dili am hedfan atom a gwneud ein hymweliad i'r goedwig yn fythgofiadwy!

**Celf a chrefft yr Urdd**
Hoffwn llongyfarch y criw a fuodd yn brysur yn cynllunio a chreu darnau o waith Celf a chrefft i gystadlu yng Nghystadleuaeth rhanbarth yr Urdd.
Canlyniadau:
Elis Wyn Jenkins 1af-Gwaith Creadigol 2D Tecstilau
Elis Wyn 2il Print Monocrom Bl. 2 ac iau
Gwenan Hedd Jenkins-1af-Dylunio a Thechnoleg Bl. 5 a 6
Gwenan Hedd Jenkins- Print Monocrom Bl. 5 a 6
Carys James 3ydd-Gwaith Creadigol 3D Tecstilau Bl. 5 a 6
Diolch i Lynwen Jenkins am greu'r pypedau gyda Sophie, Molly , Bethany ac Aimee o flynyddoedd 5 a 6 a da iawn chi am gael y 3ydd wobr.
Campweithiau yn wir. Pob hwyl i Elis a Gwenan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a fydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.



**Tîm hoci Blwyddyn 3 a 4 Rhanbarth Urdd**
Cafodd y tîm lwyddiant ysgubol wrth iddyn nhw ennill y ffeinal - da iawn blant ac i Miss Cory am eich hyfforddi yn wythnosol. Pob hwyl i chi yn y rownd derfynol genedlaethol ar Fai 17 yn Aberystwyth.





# Ysgol Craig yr Wylfa

**Twrnament Pêl-droed**
Cafodd bechgyn CA2 i gyd gyfle i gymryd rhan yn nhwrnament pêl-droed cylch Aberystwyth. Gwnaethant gyd-chwarae'n wych!

**Plannu Coed Ceirios**
Yn ystod sesiwn natur olaf y tymor, bu'r plant yn plannu coed ceirios ar dir yr ysgol a gafodd eu cyfrannu gan Siop Cactws yn Aberystwyth. Diolch yn fawr am eich caredigrwydd – edrych ymlaen i'w gweld yn tyfu.

**Derbyn yn Ffarwelio â Sogi y Ddraig**
Ar ddiwedd y tymor, aeth plant y Derbyn a "Sogi y Ddraig"am dro lawr i draeth Aber We nol yn y Borth i ffarwelio gydag ef. Cawsant bicnic gyda Sogi cyn ffarwelio ag ef yn yr ogof.

**Stori'r Pasg yn Eglwys Llandre**
Bu plant Cyfnod Allweddol dau yn Eglwys Llandre i ddysgu am y Pasg a chawsant gyfle i actio'r stori allan a gwneud ambell i weithgaredd yn ymwneud â'r Pasg.





**Ffair Pasg yr Ysgol**
Llwyddiant mawr eleni eto oedd Ffair Pasg yr ysgol! Roedd y rhan fwyaf o'r plant wedi ymdrechu i wneud hetiau Pasg pert iawn! Cynhaliwyd y gystadleuaeth "The Great Egg Drop" eleni eto, ac fe ddaeth y frigâd dân allan i fynd a Miss Hughes (a oedd yn ddewr iawn) ar y lifft uchel i ollwng yr wyau lawr i weld pa un a fyddai'n glanio'n ddiogel heb gracio! Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r ysgol.

**Tacluso'r Traeth**
Ar y prynhawn cyntaf nôl yn yr Ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg, aeth yr ysgol gyfan lawr i'r traeth i'w dacluso trwy gasglu sbwriel.













# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu'n lliwio'r wyau Pasg. Roedd yn hyfryd derbyn eich gwaith: Cari Jenkins, Penrhyn-coch; Owain Herron, Bow Street; Cennydd Davies, Llanilar; Alys Gould, St Albans; Lleucu ap Llywelyn, Capel Madog; Anest Erwan, Bow Street; Gwawr Morgan, Bow Street; Lewis Ashton, Llanilar.

Dy lun di, Lleucu ap Llywelyn, ddaeth o het cwningen y Pasg yn gyntaf. Llongyfarchiadau!

Wel, mae'n ganol mis Mai – fy hoff fis. Mae'r tywydd yn gynhesach ac mae'r cloddiau a'r goedwig yn llawn bywyd! Dyma sgwennodd bardd o'r enw Eifion Wyn am fis Mai:

'Gwn ei ddyfod, fis y mêl,
Gyda'i firi yn yr helyg,
Gyda'i flodau fel y barrug –
Gwyn fy myd bob tro y dêl.'

Falle fod Eifion Wyn yn hoffi mis Mai am iddo gael ei eni ar ddechrau'r mis hwnnw, 2 Mai, gant a hanner o flynyddoedd yn ôl! Mae'n gyfnod gwyliau hanner tymor, gemau pêl-droed pwysig, tywydd brafiach, trip i Glan-llyn neu Langrannog, falle ... a beth am y blodau? Ydych chi wedi sylwi ar glychau'r gog eleni? Roedd Coedwig Gogerddan yn garped ohonyn nhw! Dyma sgwennodd bardd arall. R. Williams Parry:

'Dyfod pan ddêl y gwcw,
Myned pan êl y maent,
Y gwyllt atgofus bersawr,
Yr hen lesmeiriol baent.'

Y mis hwn, rhowch gynnig ar liwio llun y blodau a'r pilipalod. Pob hwyl i bawb sy'n mynd i Steddfod yr Urdd o ardal y *Tincer*, naill ai ar ymweliad neu er mwyn cystadlu. Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Mehefin. Ta ta tan toc!



Lleucu

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAEG



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
*Rhif 399 | MAI 2017*